


# Offer nwy

Mynnwch eu harchwilio  
Cadwch nhw'n ddiogel



Mae hwn yn fersiwn gwe-  
gyfeillgar o daflen  
INDG238W(rev3), a  
adolygwyd 03/09

## Y broblem

Bob blwyddyn mae tua 14 o bobl yn marw o wenwyno carbon monocsid a achosir gan offer nwy neu simneiau na chawsant eu gosod na'u cynnal a'u cadw'n iawn. Mae llawer hefyd yn dioddef o salwch. Pan nad yw nwy'n llosgi'n iawn, fel gyda thanwyddau eraill fel glo, coed neu olew, caiff gormod o garbon monocsid ei gynhyrchu, sy'n wenwynig.

Allwch chi mo'i weld. Allwch chi mo'i flasau. Allwch chi mo'i arogleuo hyd yn oed. Ond gall carbon monocsid ladd mewn ychydig oriau heb unrhyw rybudd.

Rydych mewn perygl yn arbennig wrth gysgu am na allwch sylwi ar symptomau cynnar gwenwyno carbon monocsid. Mae'r rhain yn cynnwys teimlo'n flinedig, cysglyd, cur pen a phoenau yn y frest a'r stumog. Gall y symptomau hyn gael eu camgymryd am anhwylderau cyffredin fel ffliw neu flinder.


Os sylwch chi neu'ch teulu ar y symptomau uchod, a'u bod efallai o ganlyniad i garbon monocsid, mae'n **rhaid i chi geisio cyngor meddygol ar unwaith**. Bydd eich doctor angen profi sampl gwaed neu anadl. Mae carbon monocsid yn gadael y gwaed yn gyflym a gall y **profion fod yn wallus os cânt eu cymryd dros bedair awr ar ôl dod i gysylltiad â charbon monocsid**.

Rydych mewn perygl o wenwyno carbon monocsid oherwydd y canlynol:


- cafodd eich offer ei osod yn wael;
- nid yw eich offer yn gweithio'n iawn;
- nid yw eich offer wedi cael ei archwilio am ddiogelwch na'i gynnal a'i gadw'n rheolaidd;
- nid oes digon o awyr iach yn yr ystafell;
- mae'ch simnai wedi'i blocio;
- rydych yn caniatáu i beiriannydd nad yw ar y Gofrestr Gas Safe osod neu gyflawni gwaith cynnal a chadw ar eich offer.

Rydych mewn perygl arbennig os ydych yn cysgu mewn ystafell sydd ag offer nad yw wedi'i selio ar gyfer ystafell (e.e. tân nwy confensiynol) yn llosgi drwy'r nos. (Mae allanfeydd simnai ar gyfer offer sydd wedi eu selio ar gyfer ystafell fel arfer wedi'u gosod ar wal allanol mewn cawell ar lefel isel yn hytrach nag ar lefel y to neu'n uwch na hynny.)

### Offer nwy diogel



### Offer nwy peryglus



### Yr atebion

**PEIDIWCH BYTH** Â defnyddio offer nwy os credwch nad yw'n gweithio'n iawn. Edrychwch am fflamau melyn neu oren (heblaw am danau effaith-tanwydd sydd â fflam o'r lliwiau hyn), parddu neu staniau o amgylch yr offer a goleuadau peilot sy'n diffodd yn aml.

**PEIDIWCH BYTH** â gorchuddio offer na blocio agorfeydd aer darfudo.

**PEIDIWCH BYTH** â blocio na rhwystro deltau awyru na brics aer sefydlog.

**PEIDIWCH BYTH** â blocio na gorchuddio simneiau allanol.

**RHYBUDD** Pryd bynnag y caiff allanfeydd drafft, ffaniau to neu ffaniau tynnu aer, gwydr dwbl neu estyniadau heuldy eu gosod mewn ystafell sy'n cynnwys offer nwy, dylid archwilio diogelwch yr offer ar ôl hynny.

Cynghorir **PAWB** sy'n defnyddio nwy i gael peiriannydd Gas Safe cofrestredig i archwilio diogelwch yr offer **o leiaf unwaith y flwyddyn**.

**Efallai eich bod yn gymwys i gael archwiliad diogelwch am ddim.** Os ydych dros 60 oed, gydag afiechyd cronig, yn anabl, byddar neu â nam ar y clyw, yn ddall neu â nam ar y golwg, mae gennych hawl i ymuno â Chofrestr Gwasanaeth Blaenoriaeth eich cyflenwr. Gallwch ymuno am ddim ac unwaith y byddwch yn aelod, bydd hawl gennych i gael archwiliad diogelwch nwy blynyddol am ddim, ymhlith pethau eraill (oni bai eich bod yn byw mewn llety ar rent, ac os felly, dyletswydd eich landlord yw sicrhau bod yr archwiliad diogelwch yn cael ei gyflawni). I gael rhagor o wybodaeth edrychwch ar gefn eich bil nwy.

Mae **LARYMAU CARBON MONOCSID** yn gam gofal wrth gefn defnyddiol ond mae'n dal yn **HANFODOL** bod peiriannydd Gas Safe cofrestredig yn gosod a chynnal a chadw offer nwy yn gywir. Os penderfynwch brynu larwm carbon monocsid, sicrhewch ei fod yn cyrraedd y safonau diogelwch cyfredol (BS EN 50291) ac yn dangos Nod Barcud. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i aelod o staff am gyngor. Dilynwch gyfarwyddiadau'r cyflenwr ar leoli'r larwm bob amser.

Os byddwch yn arogl nwy, neu'n amau bod nwy neu garbon monocsid yn gollwng, dylech wneud y canlynol yn syth:

- Agor pob drws a ffenestr.
- Diffodd y cyflenwad nwy wrth falf rheoli'r mesurydd (os gwyddoch ble mae'r falf). Os yw'r nwy yn parhau i ollwng ffoniwch **y Grid Cenedlaethol** ar y **Rhif Rhadffon Nwy Brys 0800 111 999**.
- Sicrhau bod unrhyw ymchwiliadau neu atgyweiriadau yn cael eu cyflawni gan beiriannydd Gas Safe cofrestredig.

## **Y gyfraith**

Mae Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998 yn gosod dyletswyddau ar ddefnyddwyr, gosodwyr a chyflenwyr nwy, a landlordiaid. Mae'r rheoliadau yn debyg i reoliadau diogelwch eraill sy'n ymwneud ag offer llosgi, e.e. y Rheoliadau Adeiladu, sy'n gosod safonau o ran awyru a simneiau. Ar gyfer eich diogelwch eich hun cofiwch:

- **yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gwneud gwaith ar offer neu osodiadau nwy fel rhan o'u busnes fod yn gymwys ac ar Gofrestr Gas Safe.** Gwnewch yn siŵr bob amser bod eich peiriannydd wedi'i gofrestru drwy ofyn am gael gweld cerdyn adnabod sydd â llun o'r peiriannydd, ei rif cofrestru busnes a'i rif trwydded personol, enw'r cwmni, dyddiad dechrau'r cerdyn a'r dyddiad dod i ben a hologram diogelwch. Ar gefn y cerdyn mae manylion am y math o waith nwy y gall y peiriannydd ei wneud. Gallwch hefyd ffonio Cofrestr Gas Safe yn ystod oriau swyddfa arferol ar 0800 408 5500 neu ewch i'r wefan yn [www.gassaferegister.co.uk](http://www.gassaferegister.co.uk);

- **yn ôl y gyfraith dim ond unigolyn cymwys a all gyflawni gwaith ar offer neu osodiadau nwy.** Gallai cyflawni gwaith eich hun ar offer neu osodiadau nwy fod yn beryglus ac mae'n debygol o fod yn anghyfreithlon;

- **yn ôl y gyfraith ni ddylech ddefnyddio unrhyw offer neu osodiadau nwy os gwyddoch neu yr amheuwch eu bod yn beryglus.** Drwy Gofrestr Gas Safe, mae HSE wedi gofyn i bob peiriannydd cofrestredig ddatgysylltu unrhyw offer



neu osodiadau nwy sydd mor beryglus fel y byddent yn berygl bywyd eu defnyddio. Os bydd eich peiriannydd yn gofyn am eich caniatâd i ddatgysylltu offer neu osodiadau o'r fath, dylech gytuno er mwyn eich diogelwch eich hun a diogelwch eraill. Cyn i chi ddefnyddio'r offer neu'r gosodiadau eto, mynnwch fod peiriannydd Gas Safe cofrestredig wedi ei drwsio

- **yn ôl y gyfraith, landlordiaid sy'n gyfrifol yn gyffredinol am sicrhau bod gosodiadau a simneiau nwy mewn cyflwr da, a bod profion diogelwch yn cael eu cyflawni ar offer a simneiau nwy bob blwyddyn. Rhaid iddynt hefyd gadw cofnod o'r archwiliadau diogelwch am o leiaf ddwy flynedd a rhoi'r dystysgrif ddiweddaraf i denantiaid presennol ac unrhyw denantiaid newydd cyn iddynt symud i mewn.** Os mai eich eiddo chi yw'r offer, chi sy'n gyfrifol am ei gynnal a'i gadw ac am yr archwiliadau diogelwch;
- **yn ôl y gyfraith, ac eithrio offer sydd wedi ei selio ar gyfer ystafell, mae cyfyngiadau o ran gosod offer nwy fel tanau, boeleri a gwresogyddion mewn eiddo lle mae pobl yn cysgu. Mae'r cyfyngiadau hyn ond yn berthnasol i offer a osodwyd ar ôl 1 Ionawr 1996 ac i offer sydd wedi'i osod yn barod mewn ystafelloedd mewn llety ar rent sydd wedi'u troi'n ystafelloedd gwely ar ôl 31 Hydref 1998.** Gall offer nad yw wedi ei selio ar gyfer ystafell, e.e. tanau nwy confensiynol o 14 cilowat neu lai, ond gael ei osod os oes ganddo ddyfais sy'n diffodd y cyflenwad nwy yn awtomatig cyn i lefelau peryglus o nwy allu crynhoi. Fodd bynnag, ar gyfer offer dros 14 cilowat dim ond offer sydd wedi'i selio ar gyfer ystafell a gaiff ei ganiatáu mewn llety o'r fath;
- **yn ôl y gyfraith, ers 31 Hydref 1998, mae'n anghfreithlon gosod offer sy'n gwresogi dŵr ar unwaith mewn unrhyw ystafell os nad yw wedi ei selio ar gyfer ystafell neu heb ddyfais diogelwch sy'n diffodd y cyflenwad nwy yn awtomatig cyn i lefelau peryglus o nwyon gwenwynig grynhoi;**
- **yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i gludwyr nwy/darparwyr gwasanaethau brys wneud y sefyllfa'n ddiogel mewn achos o argyfwng.** O fewn 12 awr dylent nodi pam fod y nwy yn gollwng a chymryd camau i atal y nwy rhag gollwng. Mewn achosion lle mae carbon monocsid yn gollwng neu y tybir ei fod yn gollwng, dylent ymateb i adroddiadau gan ddefnyddwyr a gwneud y sefyllfa'n ddiogel.

## Darllen pellach

Os hoffech gael gwybodaeth fanylach am y pwnc, bydd y cyhoeddiad HSE canlynol yn ddefnyddiol i chi: *Safety in the installation and use of gas systems and appliances. Gas Safety (Installation and Use) Regulations 1998. Approved Code of Practice and guidance L56 (Ail argraffiad) HSE Books 1998* ISBN 978 0 7176 1635 0.

Hefyd, i gael gwybodaeth am offer llosgi nwy, tanwydd soled ac olew, a gwybodaeth am symptomau gwenwyno carbon monocsid, edrychwch ar lyfryn *Keep warm keep well* yr Adran Iechyd (sy'n cael ei ddiweddarau'n flynyddol). Gallwch ei lawrlwytho o [www.dh.gov.uk](http://www.dh.gov.uk) neu [www.direct.gov.uk](http://www.direct.gov.uk), neu ysgrifennwch i Department of Health Publications, PO Box 777, London SE1 6XH, Ffôn: 0300 123 1002.

## Rhagor o wybodaeth

Mae cyhoeddiadau HSE sydd am ddim a'r rhai sydd ar werth ar gael drwy'r post gan HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA. Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995 Gwefan: [www.hsebooks.co.uk](http://www.hsebooks.co.uk) (Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth ar gael hefyd o siopau llyfrau a gellir llwytho taflenni am ddim i lawr o wefan HSE: [www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk).)

Gellir cael gafael ar Safonau Prydain ar ffurf PDF neu gopi caled o siop ar-lein Sefydliad Safonau Prydain: [www.bsigroup.com/Shop](http://www.bsigroup.com/Shop) neu drwy gysylltu â Gwasanaethau Cwsmeriaid Sefydliad Safonau Prydain i gael copïau caled yn unig drwy ffonio: 020 8996 9001 neu e-bostio: [cservices@bsigroup.com](mailto:cservices@bsigroup.com).

Am wybodaeth ynglŷn â iechyd a diogelwch, neu i adrodd anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyfarwyddyd hwn, ymwelwch â [www.hse.gov.uk/](http://www.hse.gov.uk/). Gallwch weld cyfarwyddyd HSE ar-lein ac archebu cyhoeddiadau prisedig o'r wefan. Mae cyhoeddiadau HSE ar gael hefyd o siopau llyfrau.

Llinell Gyngor Gas Safety HSE

**Tel: 0800 300 363**

Gwefan Diogelwch Nwy HSE: [www.hse.gov.uk/gas/index.htm](http://www.hse.gov.uk/gas/index.htm)

Gwefan Cofrestr Gas Safe: [www.gassaferegister.co.uk](http://www.gassaferegister.co.uk)

**Cyhoeddir y canllaw hwn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Nid yw dilyn y canllaw yn orfodol ac rydych yn rhydd i gymryd camau eraill. Ond os dilynwch y canllaw byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae arolygwyr iechyd a diogelwch yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith a gallant gyfeirio at y canllaw hwn fel enghraifft o arfer da.**

Mae'r daflen hon ar werth mewn pecynnau o 15 o HSE Books, ISBN 978 0 7176 6361 3.

©<sup>®</sup> *Hawlfraint y Goron* Os ydych yn dymuno ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon ymwelwch â [www.hse.gov.uk/copyright.htm](http://www.hse.gov.uk/copyright.htm) am fanylion. Cyhoeddwyd yn gyntaf 03/09.